

2019 Rhif (Cy.)

2019 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A487
(Corris Uchaf i Finffordd,
Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau
Mawr Dros Dro) 2019

The A487 Trunk Road (Corris
Uchaf to Minffordd, Gwynedd)
(Temporary Prohibition of Large
Vehicles) Order 2019

Gwnaed 11 Tachwedd 2019
Yn dod i rym 19 Tachwedd 2019

Made 11 November 2019
Coming into force 19 November 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A487, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Corris Uchaf i Finffordd, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Mawr Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 19 Tachwedd 2019.

1. The title of this Order is the A487 Trunk Road (Corris Uchaf to Minffordd, Gwynedd) (Temporary Prohibition of Large Vehicles) Order 2019 and it comes into force on 19 November 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 21:00 ar 19 Tachwedd 2019 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor rhwng Corris Uchaf a Minffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd â’r B4405 ym Minffordd hyd at bwynt 1400 o fetrau i’r de o’r gyffordd honno.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy’n lletach na 2.5 metr, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn y Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

4. Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

11 Tachwedd 2019

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau Llywodraeth Cymru

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (CORRIS UCHAF I FINFFORDD, GWYNEDD) (GWAHARDD CERBYDAU MAWR DROS DRO) 2019

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A487, neu gerllaw iddi, rhwng Corris Uchaf a Minffordd, Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd sy’n lletach na 2.5 metr, ac eithrio cerbydau a ddefnyddir ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A487 Fishguard to Bangor trunk road between Corris Uchaf and Minffordd that extends from its junction with the B4405 at Minffordd to a point 1400 metres south of that junction;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 21:00 on the 19 November 2019 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle exceeding 2.5 metres in width, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road specified in this Order.

Application

4. The prohibition in articles 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 6 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

11 November 2019

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management and Standards Welsh Government

THE A487 TRUNK ROAD (CORRIS UCHAF TO MINFFORDD, GWYNEDD) (TEMPORARY PROHIBITION OF LARGE VEHICLES) ORDER 2019

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A487 trunk road between Corris Uchaf and Minffordd, Gwynedd.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles exceeding 2.5 metres in width, other than those being used by the works, from proceeding on

gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r B4405 ym Minffordd hyd at bwynt 1400 o fetrau i'r de o'r gyffordd honno.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de fydd ar hyd yr A487 tua'r gogledd-ddwyrain i Dafarn Cross Foxes, ar hyd yr A470 tua'r dwyrain yna tua'r de i Fallwyd a Glantwymyn, ar hyd yr A489 tua'r de-orllewin i Fachynlleth i ailymuno â'r A487 tua'r gogledd. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn weithredol dros nos o 21:00 o'r gloch ar 19 Tachwedd 2019 hyd 03:00 o'r gloch ar 20 Tachwedd 2019 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf, rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos tua 2 wythnos cyn unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](http://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <http://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmyinion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

the length of the A487 trunk road that extends from its junction with the B4405 at Minffordd to a point 1400 metres south of that junction.

The alternative route for southbound traffic will be via the A487 north eastbound to Cross Foxes Inn, A470 eastbound then southbound to Mallwyd and Glantwymyn, A489 south westbound to Machynlleth to re-join the A487 northbound. Vice versa for northbound traffic.

It is expected that the prohibitions, which will be signed accordingly, will operate overnight from 21:00 hours on 19 November 2019 until 03:00 hours on 20 November 2019 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 6 months as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed approximately 2 weeks before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government